# Cyngor ar Ofal y Llygaid

Bydd y daflen gyngor hon yn rhoi gwybodaeth i chi ynglŷn â defnyddio meddyginiaeth sydd wedi'u rhoi i chi ar bresgripsiwn ar gyfer eich llygaid.

## Sut i roi eli/diferion yn y llygad

Darllenwch y cyfarwyddiadau ar y label bob amser a thrin y llygad sydd wedi'i hanafu yn unig. Dilynwch y cyfarwyddiadau o ran pa mor aml i roi'r eli/diferion ar y lygad. Rhowch yr eli/diferion fel a ganlyn:

- Golchwch eich dwylo.
- Sefwch o flaen drych ac yn ofalus defnyddiwch fys glan i dynnu eich amrant isaf i lawr ychydig er mwyn creu poced rhwng yr amrant isaf a'r llygaid.
- ***Oeli:*** Rhowch ruban o tua 1cm o'r eli yn y boced. Cychwynnwch yn y gornel fewnol, gan symud tuag allan i'r gornel allanol.
- ***Diferion:*** Rhowch y diferion yn y boced hon.
- Blinciwch er mwyn lledaenu'r feddyginiaeth dros eich llygaid a chadwch eich llygad ar gau am 30 eiliad

Os ydych chi'n ei chael hi'n anodd rhoi'r eli neu'r diferion arnoch eich hun, gofynnwch i rywun ei wneud ar eich rhan.

Gall eich golwg fod yn niwlog am gyfnod byr ar ôl rhoi'r eli, felly ni ddylech yrru na gweithio gyda pheiriannau nes y gallwch weld yn iawn eto.

| Pethau y dylech eu gwneud | Pethau na ddylech eu gwneud |
|---|---|
| • Os ydych wedi cael eich cynghori i wisgo pad llygad, gwisgwch ef bob amser ar wahân i wrth roi meddyginiaeth am cyn hired ag y dywedwyd wrthych<br>• Gwnewch yn siŵr bob amser bod eich eli neu ddiferion wedi'u cau'n iawn a'u bod yn cael eu cadw'n unol â'r cyfarwyddiadau ar y label.<br>• Cymryd poen laddwyr os bydd eich llygad yn anghyfforddus. Gellir prynu Paracetamol dros y cownter o fferyllfa neu siopau lleol. Gwnewch yn siŵr nad ydych yn cymryd unrhyw gynnyrch arall sy'n cynnwys Paracetamol. | • Gyrru tra'n gwisgo pad llygad.<br>• Os ydych chi'n gwisgo lensys cyffwrdd, peidiwch â'u defnyddio hyd nes bydd eich llygad wedi gwella ac am 24 awr ar ôl y ddos olaf o unrhyw ddiferion neu eli llygad.<br>• Defnyddio eich eli am fwy na'r hyn sydd wedi'i gynghori. |

| | |
|---|---|
| • **Gyda phob meddyginiaeth mae'n hanfodol eich bod yn dilyn y cyfarwyddiadau ar y pecyn neu'r botel yn ofalus Gwiriwch y dyddiad dod i ben bob amser cyn ei ddefnyddio.** | |
| • Os ydych wedi cael eich cynghori i wisgo pad llygaid, gwiriwch gyda'ch cyflogwr ei bod yn ddiogel i chi wneud hynny yn eich swydd cyn i chi ddychwelyd i'r gwaith. | |

**Os ydych yn pryderu am eich cynnydd, neu os nad ydych wedi gwella o fewn**
**3 - 4 diwrnod, neu os ydych yn gwaethygu, cysylltwch â'ch meddyg teulu neu dychwelwch at yr**
**MIU/Adran Achosion Brys lle cawsoch eich gweld.**

**Os ydych chi'n poeni o gwbl am eich anaf, cysylltwch â'r Uned Mân Anafiadau (MIU):**
**Ysbyty Brenhinol Gwent: 01633 234056**
**Ysbyty Neuadd Nevill: 01873 732073**
**Ysbyty Ystrad Fawr (YYF) 01443 802353 neu 802349**
**Ysbyty Aneurin Bevan (YAB): 01495 363818**
**Neu Adran Achosion Brys: Ysbyty Athrofaol y Faenor: 01633 493287**

**Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg/**
**This document is available in English**